



**Eglwys y
Santes
Fair**

**y Gair
y Groes
y Gymraeg**

10^{fed} o Ionawr 2021

11:00yb Gwasanaeth Unedig ar-lein

Ewch i'n gwefan a dewiswch *Eglwys Fair ar-lein*

5:00yh Hwyrdd Weddi ar Zoom gyda Michael yn arwain y myfyrddod

Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Cynhelir y gwasanaeth nesaf yn yr adeilad ddydd Sul 7^{fed} o Chwefror am 9:45yb.

Mae ein newyddion diweddaraf ar ein gwefan, ac yn y newyddlen yma. Os ydych chi am rannu newyddion, stori, adnod, cysylltwch â ni!

Bedydd Crist

Dad tragwyddol,
a ddatguddiaist ym medydd Iesu ei fod yn Fab i ti, gan ei eneinio â'r Ysbryd Glân: caniatâ i ni a anwyd drachefn o ddŵr a'r Ysbryd, lawenhau i gael ein galw yn blant i ti;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Gweddi Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu,
addewaist adeiladu dy eglwys.
Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith.
Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn y plwyf hwn. **Amen.**

www.eglwysfair.cymru

 Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth

 @eglwysfair

Gweinidog: Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL.
01970 617184 eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Newyddion Teulu'r Eglwys

Gweddi am 8yb

Ymunwch â ni am 20 munud o weddi agored bob dydd o'r wythnos am 8yb. Cysylltwch â swyddfa@stmikes.net am y manylion Zoom neu am fwy o wybodaeth.

Gwasanaethau

Bwriedir cynnal gwasanaethau wythnosol o 7^{fed} o Chwefror. Ni fydd angen bwcio o flaen llaw.

Gwasanaethau ar y We

Cynhelir gwasanaeth unedig ar-lein bob bore dydd Sul am 11:00yb. Os ydych chi, neu'ch ffrind, am dderbyn copi o'r gwasanaeth ar DVD neu CD am ddim, rhowch wybod i ni.

Hefyd am 5yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhowch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

Yn Eglwys y Santes Fair...

rydym yn **creu cymuned sy'n caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist.**



Eseia 42: 1-9

Gwas yr ARGLWYDD

¹Dyma fy ngwas, yr un dw i'n ei gynnal, yr un dw i wedi'i ddewis ac sydd wrth fy modd i! Rhof fy ysbryd iddo, a bydd yn dysgu cyfiawnder i'r cenedloedd.

²Fydd e ddim yn gweiddi a chodi ei lais, nac yn gadael i neb glywed ei lais ar y strydoedd.

³Fydd e ddim yn torri brwynen fregus nac yn diffodd llin sy'n mygu. Bydd e'n dangos y ffordd iawn i ni.

⁴Fydd e ddim yn methu nac yn anobeithio nes iddo sefydlu'r ffordd iawn ar y ddaear. Mae'r ynysoedd yn disgwyl am ei ddysgeidiaeth."

⁵Dyma mae'r ARGLWYDD Dduw yn ei ddweud – yr un greodd yr awyr, a'i lledu allan, yr un wnaeth siapio'r ddaear a phopeth ynddi, yr un sy'n rhoi anadl i'r bobl sy'n byw arni, a bywyd i'r rhai sy'n cerdded arni:

⁶"Fi ydy'r ARGLWYDD, dw i wedi dy alw i wneud beth sy'n iawn, a gafael yn dy law.

Dw i'n gofalu amdanat ti, ac yn dy benodi'n ganolwr fy ymrwymiad i bobl, ac yn olau i genhedloedd – ⁷i agor llygaid y dall, rhyddhau carcharorion o'u celloedd, a'r rhai sy'n byw yn y tywyllwch o'r carchar.

⁸Fi ydy'r ARGLWYDD, dyna fy enw i. Dw i ddim yn rhannu fy ysblander gyda neb arall, na rhoi'r clod dw i'n ei haeddu i ddelwau.

⁹ Mae'r pethau cyntaf ddwedais wedi dod yn wir, a nawr dw i'n cyhoeddi pethau newydd.

Dw i'n gadael i chi glywed amdanyn nhw cyn iddyn nhw ddechrau digwydd."

Salm 46

¹Y mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni, yn gymorth parod mewn cyfyngder.

²Felly, nid ofnwn er i'r ddaear symud ac i'r mynyddoedd ddisgyn i ganol y môr, ³er i'r dyfroedd ruo a therfysgu ac i'r mynyddoedd ysgwyd gan eu hymchwydd.

⁴Y mae afon a'i ffrydiau'n llawenhau dinas Duw, preswylfa sanctaidd y Goruchaf.

⁵Y mae Duw yn ei chanol, nid ysgogir hi; cynorthwya Duw hi ar doriad dydd.

⁶Y mae'r cenedloedd yn terfysgu a'r teyrnasoedd yn gwegian; pan gwyd ef ei lais, todda'r ddaear.

⁷Y mae ARGLWYDD y Lluoedd gyda ni, Duw Jacob yn gaer i ni.

⁸Dewch i weld gweithredoedd yr ARGLWYDD, fel y dygodd ddifrod ar y ddaear;

⁹gwna i ryfeloedd beidio trwy'r holl ddaear, dryllia'r bwa, tyr y waywffon, a llosgi'r darian â tân.

¹⁰Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw, yn ddyrchafedig ymysg y cenedloedd, yn ddyrchafedig ar y ddaear.

¹¹Y mae ARGLWYDD y Lluoedd gyda ni, Duw Jacob yn gaer i ni.

Effesiaid 2: 1-10

Yn fyw drwy berthyn i'r Meseia

¹Ar un adeg roeddech chi'n farw'n ysbrydol – am eich bod chi wedi gwrthryfela a phechu yn erbyn Duw. ²Roeddech chi'n byw yr un fath â phawb arall, yn dilyn ffordd y byd. Roeddech chi'n ufuddhau i Satan, tywysog teyrnas yr awyr – sef y pŵer ysbrydol sydd ar waith ym mywydau pawb sy'n anufudd i Dduw. ³Roedden ni i gyd felly ar un adeg. Roedden ni'n byw i blesio'r hunan pechadurus a gwneud beth bynnag oedd ein ffansi. Dyna oedd ein natur ni, ac roedden ni fel pawb arall yn haeddu cael ein cosbi gan Dduw. ⁴Ond mae Duw mor anhygoel o drugarog! Mae wedi'n caru ni gymaint! ⁵Mae wedi rhoi bywyd i ni gyda'r Meseia – ie, ni oedd yn farw'n ysbrydol am ein bod wedi gwrthryfela yn ei erbyn. Y ffaith fod Duw mor hael ydy'r unig reswm pam dŷn ni wedi'n hachub! ⁶Cododd Duw ni yn ôl yn fyw gyda'r Meseia Iesu a'n gosod i deyrnasu gydag e yn y byd nefol – dŷn ni wedi'n huno gydag e! ⁷Felly bydd haelioni Duw i'w weld yn glir yn y byd sydd i ddod. Does dim byd tebyg yn unman i'r caredigrwydd ddangosodd aton ni drwy beth wnaeth y Meseia Iesu. ⁸Haelioni Duw ydy'r unig beth sy'n eich achub chi wrth i chi gredu. Dych chi wedi gwneud dim i haeddu'r peth. Anrheg Duw ydy e! ⁹Dych chi'n gallu gwneud dim i'w ennill, felly does dim lle i unrhyw un frolio. ¹⁰Duw sydd wedi'n gwneud ni beth ydyn ni. Mae wedi'n creu mewn perthynas â'r Meseia Iesu, i ni wneud yr holl bethau da mae e wedi'u trefnu ymlaen llaw i ni eu gwneud.